**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 28 Gorffennaf 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P R Hood-Williams | H Lawson |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Moore | Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth |

**Hefyd yn bresennol:**
Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S J Gallagher, M Jones a/ac L V Walton

---

## 10 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd Hannah Lawson gysylltiad personol â Chofnod 13 "Datblygu Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe".

## 11 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

## 12 Diweddariad ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. (Llafarl)

Cyflwynodd Katie Spendiff, Swyddog Polisi Hawliau a Phartneriaeth adroddiad llafar ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Esboniodd eu bod wrthi'n adnewyddu ac ailddatblygu'r cynllun a oedd wedi bod ar waith ers 2014. Dros y 18 mis diwethaf mae'r cynllun wedi cael ei gyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc, aelodau, ymarferwyr a chyrff cenedlaethol er mwyn

ystyried Cynllun Hawliau Plant sydd wedi'i fireinio a'i adnewyddu i sicrhau ei fod yn addas i'r diben wrth i ni adfer o COVID-19.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y cynllun yng nghanol mis Mehefin a disgwylir iddo ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Anogodd bawb a oedd yn bresennol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Rhan o'r gwaith a wnaed hyd yma oedd alinio'r cynllun â rhywfaint o'r gwaith cenedlaethol gan ddefnyddio egwyddorion ymagwedd “y ffordd gywir" wrth ystyried y canlynol:

- sut yr ydym yn ymgorffori hawliau plant ar draws yr awdurdod;
- sut y gallem gefnogi'r plant a'u teuluoedd i deimlo eu bod wedi'u grymuso;
- sut y gallem sicrhau bod yr uchod yn cael ei wneud mewn ffordd nad yw’n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol o blant a phobl ifanc.

Dywedodd fod adran benodol o fewn y cynllun yn canolbwyntio ar y mecanweithiau a oedd yn gynhwysol ac yn ystyrlon. Dylai'r rhain gynnwys mannau diogel i blant fod yn rhan o benderfyniadau a wnaed gan y cyngor a effeithiodd ar fywydau'r plant a'r bobl ifanc.

Yr adborth cychwynnol a gafwyd oedd bod bwlch rhwng y rhyngweithiad wyneb yn wyneb/uniongyrchol rhwng plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd hyn ar lefel sirol gyfan.

Hoffai ymestyn y sgwrs i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl, yn enwedig o ran cydweithredu i wella'r mecanweithiau wrth wrando ar blant a phobl ifanc er mwyn eu gwneud yn gynhwysol yn y broses honno o wneud penderfyniadau.

Gofynnodd y canlynol i'r Pwyllgor:

Yn eich barn chi, beth y mae angen ei wneud i wella'r mecanweithiau ar gyfer gwrando ar bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig y rheini sydd ar y cyrion?

A oedd unrhyw enghreifftiau da y gellid eu rhannu?

A oedd unrhyw feysydd gwaith penodol lle gallai plant a phobl ifanc ddod at ei gilydd gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau dros y 12-18 mis nesaf?

Tynnodd y Pwyllgor sylw at waith da a wnaed gyda'r canlynol:

Ysgolion – y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw gynllun fel arfer;
Clybiau Ieuenctid;
EYST (TÎM CEFNOGI IEUENCTID ETHNIG);
Gofalwyr Ifanc.

Cydnabu'r Pwyllgor yr anhawster o ran sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi eu barn a’r mecanwaith a ddefnyddir i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Eglurodd y Swyddog Polisi Hawliau a Phartneriaeth y byddai'r sylwadau a wnaed i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi erbyn 20 Awst ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r cyngor llawn ym mis Hydref. Byddai pob Cynghorydd yn cael cyfle i barhau â'r sgwrs dros y misoedd nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai pob un o'r 5 Pwyllgor Datblygu Polisi ystyried sut y gallent ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel y gallent gyfrannu at eitemau amrywiol y cynllun gwaith a'u penderfyniadau. Rhoddodd sylwadau ar y gwaith da sylweddol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn Abertawe a oedd yn gadarnhaol iawn a thynnodd sylw at ein hymrwymiad parhaus.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Polisi Hawliau a Phartneriaeth am yr adroddiad llafar.

## 13 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion ddiweddariad llafar ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â Datblygu Strategaeth Gwirfoddoli.

Roedd y dyddiad cau ar gyfer y swydd Rheolwr Prosiect rhanbarthol a oedd yn gyfyngedig o ran amser bellach wedi bod ac yn anffodus nid oedd unrhyw un wedi'i recriwtio.  Fodd bynnag, roeddent wedi edrych ar y cyllid ac awgrymwyd y gallai ein partneriaid yng Nghyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot wneud y gwaith. Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru hefyd i weld a ellid defnyddio rhywfaint o'r cyllid i barhau i weithio gydag arfarnwr allanol sydd wedi bod yn ein cefnogi ar sail amlasiantaethol ranbarthol am y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd adnoddau o'r strategaeth a'r ffrwd waith ranbarthol hefyd wedi'u lansio. Mae 12 taflen wybodaeth ar wirfoddoli a 6 phecyn cymorth ar gael ar hyn o bryd ar wefannau Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg a CGGA a chânt eu rhoi ar wefan y cyngor maes o law.  Yn ogystal â hyn, roedd fideo byr wedi'i animeiddio hefyd wedi'i greu am y camau cyntaf i wirfoddoli.

Eglurodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion fod Anthony Richards yn y Tîm Trechu Tlodi yn arwain ar y Strategaeth Gwirfoddoli ac roedd ef a'i dîm wedi cyfarfod â Julia Manser, CGGA yr wythnos hon i ystyried unrhyw enghreifftiau o arfer da.

Eglurodd Julia Manser fod y rhaglen waith wedi dechrau a bod y tîm wedi ymgysylltu â Chyngor Sir Fynwy ac wedi cael copi o'i Strategaeth Gwirfoddoli. Roeddent hefyd yn edrych ar strategaeth gwirfoddoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe o safbwynt y sector statudol. Byddai cyfarfodydd parhaus rheolaidd yn parhau â'r darn hwn o waith.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid sefydlu gweithdy ynghylch yr egwyddorion allweddol a fydd yn llywio'r strategaeth i roi rhagor o fanylion i'r pwyllgor.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi'r diweddariad llafar;
2) Bydd gweithdy'n cael ei sefydlu cyn y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl nesaf a drefnwyd ar gyfer 22 Medi 2021.

## 14 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** nodi’r Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.39 pm

**Cadeirydd**